# TOMLEY, JOHN EDWARD (1874 - 1951), cyfreithiwr

**Enw:** John Edward Tomley
**Dyddiad geni:** 1874
**Dyddiad marw:** 1951
**Priod:** Edith Florence Tomley (née Soley)
**Rhiant:** Esther Tomley (née Weaver)
**Rhiant:** Robert Tomley
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith
**Awdur:** Mary Auronwy James

Ganwyd 3 Chwefror 1874 yn fab Robert Tomley ac Esther (ganwyd Weaver), Trefaldwyn. Addysgwyd ef yn Nhrefaldwyn a'r Amwythig; prentisiwyd ef gyda Charles S. Pryce a fu'n glerc tref Trefaldwyn, gan dderbyn clod uchel yn ei arholiad terfynol yn y gyfraith yn 1901; a daeth yn aelod o'r cwmni lleol, Pryce, Tomley a Pryce. Gwasanaethodd fel clerc i nifer fawr o gyrff gweinyddol cyhoeddus yn siroedd Trefaldwyn ac Amwythig. Yn 1950 ef oedd llywydd Cymdeithas Clercod Cynghorau Gweithredol Cymru. Bu'n aelod gweithgar o lawer o gyrff yn ymwneud â iechyd y cyhoedd ac yswiriant; e.e. bu'n aelod o lywodraethwyr, cyngor ac amryw bwyllgorau'r Welsh National Memorial Association a weithiai dros atal, trin a dileu darfodedigaeth. Cymerodd ran amlwg yn sefydlu Cymdeithas Pwyllgorau Yswiriant Cymru, gan ddod yn llywydd y gymdeithas yn ddiweddarach. Yr oedd hefyd yn aelod o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru. Anrhydeddwyd ef trwy ei wneud yn C.B.E. yn 1920. Adlewyrchir ei amryfal ddiddordebau yn ei weithiau cyhoeddedig: *Place names* (c. 1891), *Forms of religious worship*, *The old age pensions act*, *The Castle of Montgomery* (1923), *The derating act* (1928), a nifer o erthyglau ystadegol.

Priododd, 7 Mai 1902, Edith Florence Soley a bu iddynt un mab a dwy ferch. Bu farw yn ei gartref, The Hollies, Trefaldwyn, 14 Mehefin 1951.

## Awdur

**Dr Mary Auronwy James**

## Ffynonellau

*Who's who in Wales* (1937)

*Who was who?*

*Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733394

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu